

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED , NOS LUN, MEDI 26ain, 2022

PRESENNOL

Cyng. John Owen (Cadeirydd), Cyng. Hefin Martin, Cyng. Alun Morris, Cyng. Eifion Williams, Cyng. Anwen Jones Delyth Algieri (clerc).

Cyng Nia Clwyd(Cynghorydd Sir) Cyng Arron Wynne(Cynghorydd Sir)

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Dylan Jones, Cyng Nerys Dobson, Cyng. Arwel Ll Jones, Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod.

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 25ain o Orffennaf, 2022.

1.MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF

1.1 SIGLENNI CAE CHWARAE CAE CETYN

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Mr David Dudley, Arolygydd Meysydd Chwarae, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cadarnhau fod y siglenni a'r ardal chwarae gyfan yn cael eu harchwilio'n fisol a'u bod yn ymwybodol fod yna draul arwynebol i'r seddi siglenni. Cadarnhawyd hefyd fod y seddi'n dal i fod mewn cyflwr diogel ac y gellir eu defnyddio ond eu bod ar restr i'w hailosod yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

1.2 YSGOL GYNRADD LLANDDOGED

Nododd Cyng. Anwen Jones fod ganddi ddim diweddariad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynglŷn â chyflwr hwyneb wal yr ysgol.

2. CYNLLUNIO

2.1 **Cyfeirnod 0/49951** - Garej newydd ar gyfer y ty newydd yn rhannol ar ôl troed hen sied Waen Oer Ffordd Ffrith Llanddoged.

2.2 **Cyfeirnod 0/49995** - Estyniad unllawr ar ochr yr annedd- Gorffwysfa Lodge, Llanddoged LL26 0YY.

2.3 **Cyfeirnod 0/50030** Cael gwared ar 2 x coed cedrwydd coch gorllewinol Glasfryn, Reesbier Limited Ffordd Fron Francis Llanddoged Llanrwst LL26 0TY.

2.4 Trafodwyd y ceisiadau cynllunio fesul un a phasiwyd drwy aelodau codi eu dwylo i gadarnhau fod dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau.

3. CYNNAL A CHADW

3.1 Arwydd 'Anaddas i Gerbydau Trwm' Groesffordd PenBryn Bach Llanddoged wedi dod i lawr.

3.2 Ffordd yn gostwng a gwyro i un ochr ar ffordd Bryn Saith rhwng Rhiwlas a Bryn Saith a hefyd nifer o dyllau angen eu llenwi ar hyd y ffordd yma.

4. POLISIAU Y CYNGOR

4.1 Cymeradwyodd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo i fabwysiadu polisiau'r cyngor. Arwyddwyd y Cadeirydd y polisiau:- Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Asesiad Risg, Polisi Ymateb i gwynion, a Chod Ymddygiad y cyngor.

5. UNRHYW FATER ARALL

5.1 **LLINELLAU MELYN GYFERBYN AC YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, FFORDD TYRPEG UCHAF**

Nodwyd pryder fod cerbydau yn dal i barcio ar y llinellau melyn gyferbyn ar ysgol. Aelodau'r cyngor i fonitro hyn.

5.2 ARCHWILIAD ALLANOL CYFRIFON Y CYNGOR

Eglurodd y clerc fod yr archwilwyr allanol ' Archwilio Cymru' wedi cysylltu angen rhagor o fanylion a dogfennau gan y Cyngor. Bydd y clerc yn casglu'r dogfennau ac yn mynd a nhw i'r swyddfa Archwilio Cymru yn Abergele.

5.3 CAIS GRANT' DATBLYGU GWLEDIG CONWY'

Pasiwyd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo i'r clerc fwrw ymlaen gyda'r cais am arian grant gan Datblygu Gwledig Conwy i gael dau fwrdd picnic ar gyfer Cae Cetyn, Llanddoged.